



CYNLLUN CORFFORAETHOL

MENTER IAITH CASTELL-NEDD PORT TALBOT

2015-16

Cefndir Daeryddol ac Ieithyddol

1. Cefndir

Sefydlwyd Menter Iaith Castell Nedd Port Talbot yn Ebrill 2002 ar ôl i Fenter Aman Tawe gael ei rhannu'n ddwy. Datblygodd un hanner i fod yn Fenter Dyffryn Aman fel rhan o rwydwaith Mentrau Iaith Myrddin yn Sir Gâr a ffurfiwyd Menter Iaith newydd sbon gyda'r hanner arall i wasanaethu Sir Castell-nedd Port Talbot. Yn ystod cyfnod Menter Aman Tawe, a sefydlwyd yn 1994, yr ardaloedd a oedd yn cael eu gwasanaethu oedd Cwmtawe, Dyffryn Aman a rhannau o dde Powys ac Abertawe, ond yn dilyn grant ychwanegol gan Fwrdd yr Iaith yn 2002 llwyddwyd i ymestyn y gwaith ar draws Nedd Port Talbot gyfan ac agorwyd swyddfa ym Mhontardawe i gydlynu'r ymdrechion. Ysgogwyd y newidiadau hyn i raddau yn dilyn ad-drefnu llywodraeth leol yn 1996 a greodd Fwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Ers ei sefydlu ddeng mlynedd yn ôl mae'r Fenter wedi datblygu nifer o flaengareddau a phrosiectau yn ystod y cyfnod hwn i hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y sir.

Mae'r Fwrdeistref yn amrywiol iawn ei natur. Mae gan yr ardal boblogaeth o ryw 135,281. Mae diweithdra yn 8.7%, sydd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 5.3%. Mae diweithdra ymhlith pobl ifainc dan 25 yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae tua 73% o'r cymunedau mwyaf dirwasgiedig yn y Fwrdeistref ymhlith y 50% o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae proffil economaidd yr ardal wedi newid dipyn dros yr 20 mlynedd ddiwethaf wrth i'r ardal ddibynnu llai ar lo, olew, petrocemegau a metel a mwy ar y sectorau gwasanaethu a thwristiaeth. Serch hynny, mae gwaithgynhyrchu'n rhan bwysig iawn o economi'r ardal gyda 29% o swyddi yn ddibynnol arno gyda chwmni dur Corus yn para i fod yn brif gyflogwr.

2. Cefndir Ieithyddol

Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae tua 15.3% o boblogaeth y sir yn gallu siarad Cymraeg, sydd yn cyfateb i ryw 20,698 o bobl. Mae'r mwyafrif helaeth ohonynt yn byw ym mhen uchaf Cwmtawe a Dyffryn Aman gyda rhai cymunedau megis Gwaun Cae Gurwen, Cwmllynfell a Brynaman Isaf ymhlith yr ardaloedd Cymreiciaf yng Nghymru gyfan. Fodd bynnag, dyma'r ardaloedd a welodd y dirywiad mwyaf o safbwynt canran a niferoedd siaradwyr Cymraeg rhwng 2001-2011. Fel y nodir yn y tablau isod, mae rhai cymunedau megis Godre'r Graig ac Ystalyfera wedi gweld dirywiad o dros 10% o fewn degawd. Gellid dadlau mai'r ardal sydd yn ymestyn o Drebanos i Gwmllynfell a Rhos i Waun Cae Gurwen yw'r un bwysicaf yn y sir o safbwynt ei harwyddocâd ieithyddol gan mai yno y ceir y niferoedd a'r canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg. Yr ardal hon yw echel ieithyddol y sir a bydd Cynllun Strategol y Fenter yn rhoi sylw arbennig i gynlluniau sydd yn ceisio atgyfnerthu'r Gymraeg yn y cymunedau allweddol hyn dros y blynyddoedd nesaf. Byddai colli'r waddol hon o Gymreictod naturiol yn sicr o gael effaith seicolegol ddirfawr ar weddill y sir ac ar y twf sylweddol o blant sydd yn mynychu ysgolion Cymraeg y cylch a'r oedolion hynny

sydd yn dysgu'r iaith o'u gwirfodd. Dyma un o'r rhesymau pam y penderfynnodd Bwrdd yr Iaith sefydlu PartnerIAITH yn 2011 ar gyfer ardal Aman Tawe a phenodi swyddogion llawn amser i hybu'r Gymraeg yn y pentrefi nodedig hyn.

Y mae'r tabl isod yn dangos y newid o ran canran o safbwynt siaradwyr Cymraeg yn y cymunedau hyn rhwng 2001 a 2011:-

| Cymuned | % Siaradwyr Cymraeg (2001) | % Siaradwyr Cymraeg (2011) | % Newid |
|------------------|-----------------------------------|-----------------------------------|----------------|
| Cwmllynfell | 68.2 | 58.8 | -9.4 |
| Brynaman Isaf | 68.1 | 60.8 | -7.3 |
| Gwaun-Cae-Gurwen | 67.9 | 55.8 | -12.1 |
| Ystalyfera | 54.6 | 46.0 | -8.6 |
| Trebanos | 42.4 | 33.6 | -8.8 |
| Godre'r Graig | 41.5 | 30.1 | -11.4 |
| Pontardawe | 37.4 | 31.0 | -6.4 |
| Alltwen | 35.9 | 29.5 | -6.4 |
| Rhos | 28.6 | 24.7 | -3.9 |

(Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001/2011)

Er bod canrannau yn adlewyrchiad da o ddwysedd siaradwyr Cymraeg maent i raddau helaeth yn gallu bod yn gamarweiniol fel mesur o hyfywedd iaith. Mae niferoedd ar y llaw arall yn rhoi darlun manylach o safbwynt newidiadau demograffiaidd. Gweler yn y tabl isod fel y mae cwymp sylweddol wedi digwydd yn y niferoedd o siaradwyr yr iaith dros gyfnod o ddegawd mewn cymunedau traddodiadol Gymraeg fel Cwmllynfell, Brynaman Isaf, Gwaun Cae Gurwen ac Ystalyfera. Mae colli cymaint â hyn o siaradwyr mewn cyfnod cymharol fyr yn gwanhau sylfaen ieithyddol yr ardal ac yn arwain at ddirywiad cyflymach wrth i'r shifft iaith danseilio hyder a pharodrwydd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn peuoedd cymdeithasol amrywiol.

Y mae nifer o resymau paham y gwelir erydiad ieithyddol yn digwydd mewn ardaloedd sydd â chanrannau a niferoedd cymharol uchel o siaradwyr Cymraeg – nodwedd sydd yn gyffredin i gymunedau cyffelyb sydd yn ymestyn ar draws Dyffryn Aman a Chwm Gwendraeth. Ymhlith y prif ffactorau sydd yn cyfrannu tuag at ddirywiad iaith mae:-

- Diffyg trosglwyddiad iaith yn y cartref
- Allfudo/Mewnfudo
- Canfyddiad negyddol o werth cynhenid yr iaith
- Diffyg ymwybyddiaeth o fanteision dwyieithrwydd
- Diffyg hyder Cymry Cymraeg
- Ymlediad y Saesneg i beuoedd traddodiadol y Gymraeg
- Priodasau cymysg eu hiaith
- Grym y dylanwad Eingl-Americanaidd ar ddiddordebau plant a phobl ifainc
- Mwy o farwolaethau na genedigaethau ymhlith teuluoedd Cymraeg

| Cymuned | Siaradwyr Cymraeg (2001) | Siaradwyr Cymraeg (2011) | Newid | % Newid Cymharol |
|----------------------|---|---|--------------|-----------------------------|
| Cwmllynfell | 741 | 669 | -72 | -9.72 |
| Brynaman Isaf | 861 | 776 | -85 | -9.87 |
| Gwaun-Cae- Gurwen | 1,860 | 1,572 | -288 | -15.48 |
| Ystalyfera | 1,614 | 1,339 | -275 | -17.04 |
| Trebanos | 580 | 459 | -121 | -20.86 |
| Godre'r Graig | 580 | 473 | -107 | -18.45 |
| Pontardawe | 1,826 | 1,624 | -202 | -11.06 |
| Alltwen | 800 | 664 | -136 | -17.0 |
| Rhos | 692 | 588 | -104 | -15.03 |

(Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001/2011)

Bu lleihad amlwg yn y ganran o siaradwyr yr iaith yn y cymunedau traddodiadol Gymraeg yn ogystal ag ar y lefel sirol. Rhaid, fodd bynnag, beidio â rhoi gormod o bwyslais ar ddadansoddiadau gofodol o sefyllfa'r iaith gan mai cyfrwng cymdeithasol a diwylliannol yw hi yn y pen draw ac mae ei nerth a'i chryfder i'w fesur yn ei defnydd, ei statws a'r swyddogaeth a dadogir iddi o fewn patrymau cymdeithasol lleol. Lle mae dwysedd y siaradwyr Cymraeg yn para'n gryf mae'r Gymraeg yn dal ei thir yn gymharol lwyddiannus fel iaith bob dydd i'r gymuned, er bod ffactorau grymus yn cyfrannu'n feunyddol at ei ffawd.

I'r pegwn arall, mae llai na 10% yn siarad Cymraeg mewn cymunedau megis Glynccorwg, Aberafan, Taibach, Baglan, Llansawel, Cimla, Cymmer a Chastell-nedd. At ei gilydd mae'r canrannau yn pendilio rhwng 10-17% yn yr ardaloedd sydd yn weddill.

Ar nodyn mwy gobeithiol, y mae'r nifer o blant sy'n cael eu nodi gan Benaethiaid Ysgolion Cynradd y sir fel plant sydd yn siarad Cymraeg gartref neu ddim yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd ond yn rhugl, wedi codi rhywfaint dros y blynyddoedd diwethaf. Yn ol y ffigurau diweddaraf gan Lywodraeth Cymru mae rhyw 1,600 o blant sef 7.7% o blant oed cynradd y sir yn siarad Cymraeg gartref ond mae 15.2% o'r holl blant yn cael eu hystyried yn rhugl yn y Gymraeg, sydd yn cyfateb i ryw 3,200 o blant i gyd. Mae'r ffigurau hyn yn sicr yn adlewyrchu'r ymdrechion clodwiw a wneir gan yr Ysgolion Cynradd Penodedig a'r Ysgolion Traddodiadol Gymraeg y sir. Fodd bynnag, un gofid yw'r ffaith bod nifer isel o blant o'r Ysgolion Traddodiadol Gymraeg fel Cwmllynfell, Cwmgors, Trebannws a Gwauncaegurwen yn symud ymlaen i Ysgol Gyfun Ystalyfera ar gyfer eu haddysg uwchradd. Mae nifer o blant rhugl eu Cymraeg o'r ysgolion hyn yn mynd i Ysgol Gyfun Cwmtawe i dderbyn eu haddysg drwy'r iaith Saesneg. Mae'r diffyg dilyniant o safbwynt addysg cyfrwng Cymraeg o'r sector cynradd i'r uwchradd yn sicr yn fater o bryder o safbwynt dyfodol yr iaith a'r hyder sydd yn deillio o'i defnyddio mewn gwahanol gyweiriau a meysydd trafod. Er gwaethaf y tueddiadau hyn, mae'n deg nodi serch hynny bod niferoedd disgyblion

Ysgol Gyfun Ystalyfera wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf, a bod dros 1,150 yn cael eu haddysg yn gyfangwbl drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgol erbyn hyn.

Mae cydweithio gyda'r Ysgolion Cynradd Gymraeg ac Ysgol Gyfun Ystalyfera yn cael blaenoriaeth arbennig gan Fenter Iaith Castell-nedd Port Talbot yn y Cynllun Strategol. Y nod fyddai darparu cyfleoedd i blant a phobl ifainc ddefnyddio'r iaith mewn cyd-destun cymdeithasol.

Mae diffyg trosglwyddiad iaith yn y cartref yn sicr yn un o'r ffactorau sydd wrth wraidd dirywiad yr iaith ym Mwrdeistref Castell-nedd Port Talbot. Dengys dadansoddiad diweddar o Gyfrifiad 2011 gan Llywodraeth Cymru o gyfraddau trosglwyddo iaith i blant 3-4 oed bod colli iaith yn digwydd ar draws y sefyllfaoedd teuluol gwahanol yn y sir. Diffinnir 'cyfradd drosglwyddo' gan y Llywodraeth fel y nifer o blant sy'n gallu siarad Cymraeg wedi'i mynegi fel canran o'r holl blant. Mae'r oedran 3-4 yn allweddol fel mesurydd o drosglwyddiad iaith yn y cartref gan eu bod yn rhydd i raddau helaeth o ddylanwad ieithyddol y sector addysg.

3. Statws Cyfansoddiadol

Mae Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot wedi cofrestru fel cwmni cyfyngedig drwy warrant. Mae hyn yn holl bwysig, gan ei fod yn amddiffyn aelodau'r Bwrdd Cyfarwyddwyr rhag atebolrwydd ariannol personal petai'r Fenter yn mynd yn fethdalwr. Mae Bwrdd Rheoli'r Fenter wedi penderfynnu peidio a chofrestru fel elusen ar hyn o bryd.

4. Nod ac Amcanion y Fenter

Nod:-

Nod Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot yw hybu a chynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg o fewn ffiniau fwrdeistref sirol.

Amcanion:-

Y mae prif amcanion Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot yn cynnwys:-

- codi hyder a sgiliau iaith siaradwyr Cymraeg;
- hybu a hwyluso gweithgareddau cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg;
- darparu cyfleoedd i blant a phobl ifainc gwrdd a chymdeithasu yn y Gymraeg;
- annog y di-gymraeg a mewnfudwyr i ddysgu'r iaith;
- hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y sector preifat;
- cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan fudiadau gwirfoddol;
- dylanwadu ar bolisiau cyrff cyhoeddus;

- newid agweddau tuag at yr iaith a'r defnydd a wneir ohoni;
- codi proffil a delwedd gyhoeddus y Gymraeg;
- gweithredu fel canolfan wybodaeth ac adnoddau;
- cyfrannu tuag at adfywiad cymunedau lleol.

5. Swyddfa'r Fenter

Lleolir swyddfa Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot yn Adeilad Prosiect Ponty, Stryd Herbert, Pontardawe, Abertawe SA8 4EB drwy gytundeb ag Ymddiriedolwyr Prosiect Ponty a Chyngor Tref Pontardawe.

6. Y Pwyllgor Rheoli

Y mae gan y Fenter Iaith Bwyllgor Rheoli o 11 o drigolion sydd yn cynrychioli gwahanol ardaloedd o'r Fwrdeistref. Etholwyd yr aelodau mewn Cyfarfod Blynnyddol ar nos Fercher, 12fed o Fawrth 2014. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod yn rheolaidd i adolygu datblygiadau strategol ac ariannol, a chynllunio ar gyfer y dyfodol, yn ogystal a ffocysu'n ar faterion rheolaeth a sefydlu arferion da o safbwynt cynllunio iaith.

Aelodau'r Pwyllgor Rheoli yw:-

Dyfrig Harris – Cadeirydd
 Dr John Thomas – Trysorydd
 Huw Bowen – Cadeirydd Pwyllgor Ardal Pontardawe
 Nia Johns – Cadeirydd Pwyllgor Ardal Castell-nedd
 Anna Phillips – Cadeirydd Pwyllgor Pwyllgor Ardal Port Talbot
 Y Cyng. Arwyn Woolcock – Cynrychiolydd y Cyngor Sir
 Glynis Williams
 Owain Lewis
 Margaret Jones
 Crissley Jones
 Rhian Llewellyn

Mae gan y Fenter tri Phwyllgor Ardal:-

Pwyllgor Ardal Pontardawe (8 aelod)
 Pwyllgor Ardal Castell-nedd (6 aelod)
 Pwyllgor Pwyllgor Ardal Port Talbot (6 aelod)

7. Staff

Mae gan y Fenter 5 aelod o staff, sef Prif Swyddog, 2 x Swyddog Datblygu, Swyddog Ieuenctid a Swyddog Gweinyddol (rhan amser). Rhennir eu cyfrifoldeb fel a ganlyn:-

Prif Swyddog

- Cyfrifoldeb am Fenter Iaith Castell-nedd Port Talbot a leolir yn Adeilad Prosiect Ponty, Stryd Herbert, Pontardawe, Abertawe SA8 3EB.
- Llunio a monitro strategaethau'r Fenter i'w chytuno gan Bwyllgor Rheoli'r Fenter.
- Gosod amcanion a thargedau mewn cydweithrediad a Phwyllgor Rheoli'r Fenter, a monitro a gwerthuso prosiectau.
- Adnabod a chymryd cyfleoedd i ddenu incwm newydd i'r Fenter.
- Cydweithio â Phartneriaid Grant Uned y Gymraeg, Llywodraeth Cymru trwy gynnal cyfarfodydd er mwyn rhannu gwybodaeth, cynllunio a chydweithio.
- Trefnu a chadeirio cyfarfodydd Fforwm Sirol Castell-nedd Port Talbot.
- Cydweithio â'r Llywodraeth i hyrwyddo prosiectau ac ymgyrchoedd.
- Cefnogi pwyllgorau ardal / cymuned i gyfrannu at raglen waith y Fenter.
- Cydweithio gydag arweinwyr cymunedol i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.
- Rheoli a datblygu pob aelod o staff y Fenter a staff atodol, yn cynnwys goruchwyliaeth arweinwyr unrhyw glybiau ieuenctid a chynlluniau chwarae.
- Adrodd yn ôl ar holl waith y Fenter i'r Pwyllgor Rheoli a Chyfarwyddwyr a sicrhau bod targedau'r Llywodraeth yn cael eu cyflawni gan adrodd yn ôl ar eu cyflawniad yn unol â'r amserlen a'r canllawiau.
- Atebolrwydd am gyllid y Fenter, yn cynnwys ceisiadau grant.
- Cyfrifoldeb am sicrhau bod gweithdrefnau a pholisïau'r Fenter yn gyfredol ac yn cael eu gweithredu'n gywir.

- Mewnbwn i waith strategol Partnerlaith Aman Tawe, trwy fynychu cyfarfodydd Tîm a chyfarfodydd Pwyllgor Llywio. Rheoli o ddydd i ddydd Swyddogion Datblygu'r Bartnerlaith.

Unrhyw ddyletswyddau neu gyfrifoldebau ychwanegol synhwyrol o dan arweiniad Pwyllgor Rheoli Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot.

Swyddog Datblygu – Menter Iaith

1. Cymraeg yn y Gymuned

- a) Cefnogi a chynorthwyo'r 3 Pwyllgor Ardal (Pontardawe, Castell-nedd, Port Talbot)
- b) Trefnu digwyddiadau cymdeithasol i drigolion yr ardal yn ol y galw
- c) Trefnu Gwyl y Gwach (blynyddol)
- d) Trefnu Gwyl Ffilm y Crinddail (blynyddol)

2. Ieuenctid

- a) Stafell Stwnsh – Ysgol Gyfun Ystalyfera
Trefnu a chynnal oll gweithgareddau'r ystafell amser cinio dydd Mawrth + lau yn cynnwys Clybiau Cinio, Cyrsiau / Gweithdai, Clybiau ar ol ysgol
- b) Trefnu gwibdeithiau bobl ifanc yn ol y galw
- c) Trefnu ymweliadau gan gwmnïau drama, bandiau a llenorion
- ch) Trefnu a chynnal Cynlluniau Chwarae Pasg / Haf i blant yn ogystal a Chlwb Joio'r Haf i ieuenctid

3. Ymgyrchoedd Llywodraeth Cymru

- a) Cefnogi ymgyrchoedd y Llywodraeth yn ol y galw

4. Gwaith Swyddfa

- a) Ymateb i ymholiadau ffon, creu datganiadau i'r wasg yn cynnwys y papurau bro, creu adroddiadau ar gyfer gwefan y Fenter yn ogystal a hysbysebu digwyddiau a threfnwyd drwy'r system 'Digwyddiadur' ac unrhyw waith gweinyddol arall yn ol y galw.

Swyddog Datblygu – Partnerlaith Aman Tawe

- Hwyluso 2 bwyllgor ardal, sef Aman Uchaf a Thawe Uchaf, drwy:
 - drefnu cyfarfodydd;
 - cadw cofnodion;
 - gweithredu yn unol â dymuniad y pwyllgorau.

- Ysgogi, cefnogi a chodi capasiti gwirfoddolwyr i weithredu.
- Creu a gweithredu rhaglen o weithgareddau fel rhan o'r prosiect.
- Cyfrifoldeb am un neu fwy o'r prosiectau strategol ar draws yr ardal.
- Adnabod a dylanwadu ar sefydliadau sydd eisoes yn weithredol yn yr ardal.
- Adrodd yn gyson ar gynnydd yn y rhaglen waith.
- Cyfrannu i'r broses ymchwil ac adrodd ar ganlyniadau ieithyddol.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau perthnasol eraill yn ôl y galw dan gyfarwyddyd y Prif Swyddog.
- Dyletswyddau Tîm
 - Cydweithio a chynorthwyo aelodau eraill y tîm pan fo angen ar brosiectau penodol
 - Rhannu gwybodaeth yn rheolaidd gydag aelodau eraill y tîm
 - Cyfrannu i drafodaethau rheolaidd y tîm
Gweithredu yn unol â safonau ac arferion gweinyddol gorau'r Fenter Iaith.

Swyddog Ieuencid – Partnerlaith Aman Tawe

- Gweithredu 3 prosiect ar gyfer plant ysgolion cynradd mewn partneriaeth a 3 ysgol gynradd lleol er mwyn pontio'r gwaith ieithyddol rhwng yr ysgol a'r gymuned.
- Anelu tuag at gynyddu niferoedd mynychu o 10% rhwng pob gweithgaredd sydd wedi ei anelu tuag at blant er mwyn sicrhau bod 10% mwy o blant yn cael y profiad o weithgaredd cyfrwng Cymraeg.
- Creu rhaglen neu brosiect a fydd yn sicrhau dilyniant i lwyddiannau prosiect Balchder Bro gan gasglu a chyflwyno fideo addas i o leiaf 150 o blant ifanc lleol.
- Gweithio yn ddwys gyda 6 ysgol leol er mwyn cynorthwyo plant i adnabod dwyieithrwydd fel sgil hanfodol a modd o ddatblygu. Byddwn yn cydweithio gyda Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot i ddatblygu rhaglen benodol ar gyfer cyflwyno'r wybodaeth hyn.

- Cynnal 3 taith neu weithgaredd penodol ar gyfer pobl ifanc ar sail gwaith cynllunio ac ymgysylltu o flaen llaw er mwyn trosglwyddo gwybodaeth a normaleiddio'r Gymraeg mewn awyrgylch Gymraeg gan ddefnyddio'r gweithgaredd penodol fel cyfle i ddatblygu defnydd iaith tu allan i'r ysgol.
- Gweithio gydag o leiaf 3 partner lleol i Gymreigio o leiaf 3 gweithgaredd penodol gan sicrhau bod y partneriaid yn cael cymorth dwys wrth drefnu eu gweithgareddau. Byddwn yn casglu'r dystiolaeth cydweithio ac yn mesur yr impact wrth Gymreigio gweithgareddau.
- Cynnal o leiaf 3 sesiwn ymwybyddiaeth iaith ar gyfer pobl ifanc.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau perthnasol eraill yn ôl y galw dan gyfarwyddyd y Prif Swyddog / Swyddog Datblygu.

Dyletswyddau Tîm

Cydweithio a chynorthwyo aelodau eraill y tîm pan fo angen ar brosiectau penodol Rhannu gwybodaeth yn rheolaidd gydag aelodau eraill y tîm
Cyfrannu i drafodaethau rheolaidd y tîm
Gweithredu yn unol â safonau ac arferion gweinyddol gorau'r Bartneriaith / Fenter iaith.

Swyddog Gweinyddol (Rhan Amser)

- Agor, dyddio a dosbarthu post a dderbynnir
- Postio llythyron ar ran y swyddfa
- Bancio sieciau ac arian parod; Cyfrifoldeb am arian parod y swyddfa
- Cadw trefn ar ddyddiadur / bwrdd gwyn wythnosol y swyddfa
- Cynnal y 'Digwyddiadur' ar wefan y Fenter
- Cyfrifoldeb ffeilio'r swyddfa
- Talu anfonebau a dderbynnir yn brydlon
- Cyfarfodydd – trefnu lleoliadau a chysylltu gyda'r aelodau
- Unrhyw waith gweinyddol arall yn ol y galw

8. Swyddogaethau Strategol

Mae i Fwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot batrymau ieithyddol gwahanol iawn sydd yn amrywio o ardaloedd a dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg i gymunedau sydd yn amlygu gwaddol o Gymreictod 'slawer dydd ac ardaloedd sydd wedi eu Seisnigo'n sylweddol. Dylid seilio swyddog hyrwyddo gyffredinol y Fenter felly ar y rhwydweithiau / grwpiau targed canlynol:-


- Cymunedau Cymraeg pen uchaf Cwm Tawe a Dyffryn Aman
- Rhwydweithiau o rieni o gylch yr Ysgolion Penodedig a Thraddodiadol Gymraeg
- Rhwydweithiau Cymraeg yn ardaloedd mwys Seisnig y sir
- Cymunedau o ddiddordeb arbennig, e.e. teuluoedd, plant, ieuencid, dysgwyr, busnesau

Bydd swyddogaethau strategol y Fenter yn seiliedig ar y canlynol:-

- Cydweithio a sefydliadau ac asiantaethau sirol gan gynnwys yr awdurdodau lleol, cyrf cyhoeddus, sefydliadau addysg a mudiadau gwirfoddol allweddol gan annog, hyrwyddo a chefnogi defnydd helaethach o'r Gymraeg ymysg y cyrff hynny
- Gweithio gydag unigolion, cymdeithasau a mudiadau ar lawr gwlad i'w cefnogi a'u grymuso fel bod y Gymraeg yn parhau i fod yn iaith gymunedol fyw o fewn y sir
- Hwyluso prosiectau blaengar penodol ar sail blaenoriaethau sirol a lleol
- Darparu cymorth a chefnogaeth i fudiadau lleol a chymunedau yn ol y galw drwy weithredu fel canolfan adnoddau iaith. Bydd cyngor, gwybodaeth, deunyddiau ac offer ar gael gan y Fenter mewn ymateb i ymholiadau.

9. Dulliau Gweithredu

Mae'r Fenter yn ymrwymo i weithredu arferion da mewn cynllunio iaith ac i'r perwyl hwnnw bydd pob blaengaredd newydd yn cael ei gynllunio'n ofalus i sicrhau'r defnydd gorau a mwyaf effeithlon o adnoddau. Bydd pob gweithgaredd yn cael ei gynllunio'n ofalus er mwyn cael yr effaith mwyaf positif ar sefyllfa'r iaith. Dull gweithredu sylfaenol y Fenter fydd y cylch cynllunio cydnabyddedig sydd yn greiddiol i ddatblygiad pob Cynllun Strategol. Sail y model hwnnw yw sicrhau bod y dull gweithredu yn cynnwys pedair elfen graidd, sef:-



Mae'r **ymchwil** yn cynnwys cynnal asesiad o berfformiad y Fenter dros y flwyddyn ddiwethaf mewn modd systematig a chadarnhaol, gan dathlu llwyddiannau a dysgu o gamgymeriadau. Mae e'n golygu edrych ar ei chryfderau a gwendidau – mewnol ac allanol – ynhyd a rhoi sylw i'r cyfleoedd sydd ar gael i'w datblygu a'r bygythiadau sydd yn llechu allai beryglu ei dyfodol. Mae'n cynnwys gwneud dadansoddiad cyfredol o sefyllfa'r iaith yn y sir gan ystyried y ffactorau cymdeithasol ac economaidd hynny allai danseilio'r Gymraeg. Yn bwysicaf na dim mae'n cynnwys canfod barn ac asesu anghenion y sawl sy'n manteisio ar wasanaethau'r Fenter drwy ymgynghori gydag unigolion, mudiadau a sefydliadau allweddol. Bydd canlyniadau'r ymchwil yn cyfrannu'n sylweddol tuag at y broses gynllunio.

Mae **cynllunio** yn galluogi'r Fenter i flaenoriaethu ar gyfer y dyfodol gan benderfynu beth sydd angen ei wneud a sut y dylid ei gyflawni. Mae'r broses yn annog gwell defnydd o adnoddau dynol, ariannol, offer ac amser ac yn sicrhau bod y dull o weithredu'n fwy rhagweithiol ac yn llai adweithiol. Er bod adegau'n codi pan y bydd rhaid ymateb yn fyrfyr i sefyllfaoedd annisgwyl a gollwng cynlluniau are eu hanner, prin iawn ydynt mewn gwirionedd a dylid wastad geisio cadw at y cynlluniau a gytunwyd.

Y cam nesaf yw i **weithredu**'r cynlluniau. I hyn i ddigwydd yn effeithiol, dylai pob aelod o staff neu wirfoddolwr sy'n gysylltiedig a gweithredu'r amcanion lunio cynllun gwaith personol dros gyfnod o 3-6 mis. Dylai'r rhaglenni gwaith hyn cael eu hadolygu'n gyson a'u diwygio yn ol yr angen. Bydd cyflawni yn erbyn targedau a nodwyd ar gyfer pob prosiect yn ffurfio rhan o'r adolygiad perfformiad chew-misol a gynhelir o'r staff.

Y cam olaf yn y cylch cynllunio yw'r **gwerthuso**. Mae monitor a gwerthuso rheolaidd yn hanfodol er mwyn asesu cynnydd yn erbyn targedau a perfformiad staff. Dim ond drwy werthusiad manwl y mae deall sut y mae'r cynllun yn datblygu a phenderfynu os oes angen ail-gyfeirio'r gwaith yn sgil amgylchiadau annisgwyl. Y cwestiynau bydd y Fenter yn eu gofyn wrthwerthuso yw – a gyflawnodd y prosiect yr amcanion osodwyd ar ei gyfer, a gyflawnwyd y targedau a gytunwyd, a gafodd y deilliannau eu gwireddu, a wnaed gwahaniaeth gwirioneddol i'r defnydd o'r Gymraeg? Os na, pam, a beth ddylid gwneud yn wahanol y tro nesaf?

10. Polisiau / Strategaethau

Erbyn hyn mae gan y Fenter nifer fawr o bolisiau a strategaethau sydd yn cael eu hadolygu'n gyson, sef:-

- Polisiau Gweithredu a Chanllawiau Cyflogaeth (Llawlyfr Staff)
- Polisi Cynladwyedd
- Polisi Iechyd a Diogelwch
- Polisi a Gweithdrefnau Amddiffyn Plant
- Polisi Diogelu Data
- Strategaeth Rheoli Risg
- Strategaeth Cyflogi Pobl
- Strategaeth Rheolaeth Ariannol Fewnol
- Strategaeth Marchnata

| <u>Cyfrifiad 2011</u> | | Pob person 3 oed a throsodd s'yn siarad Cymraeg | Canran 3 oed a throsodd sy'n siarad Cymraeg |
|---------------------------------|------------------------------------|--|--|
| Adran etholiadol | Pob person 3 oed a throsodd | | |
| Castell Nedd Port Talbot | 135,281 | 20,698 | 15.3 |
| Aberafan | 5,232 | 411 | 7.9 |
| Aberdulais | 2,305 | 311 | 13.5 |
| Alltwen | 2,251 | 664 | 29.5 |
| Baglan | 6,627 | 557 | 8.4 |
| Blaengwrach | 1,935 | 287 | 14.8 |
| Llansawel - Dwyrain | 2,827 | 242 | 8.6 |
| Llansawel - Gorllewin | 2,896 | 275 | 9.5 |
| Bryn a Chwmafan | 6,330 | 1,024 | 16.2 |
| Bryn-coch Gogledd | 2,139 | 297 | 13.9 |
| Bryn-coch De | 5,706 | 699 | 12.3 |
| Llangatwg | 1,647 | 211 | 12.8 |
| Cimla | 3,835 | 350 | 9.1 |
| Coedffranc Canolog | 3,870 | 425 | 11.0 |
| Coedffranc Gogledd | 2,322 | 265 | 11.4 |
| Coedffranc Gorllewin | 2,563 | 316 | 12.3 |
| Creunant | 1,851 | 465 | 25.1 |
| Cwmllynfell | 1,137 | 669 | 58.8 |
| Cymer | 2,714 | 186 | 6.9 |
| Dyffryn | 3,078 | 350 | 11.4 |
| Glyncorrwg | 1,054 | 65 | 6.2 |
| Glyn Nedd | 3,320 | 689 | 20.8 |
| Godre'r graig | 1,571 | 473 | 30.1 |
| Gwauncaegurwen | 2,823 | 1,576 | 55.8 |
| Gwynfi | 1,314 | 92 | 7.0 |
| Brynaman Isaf | 1,277 | 776 | 60.8 |
| Margam | 2,908 | 295 | 10.1 |
| Castell-nedd Dwyrain | 6,137 | 497 | 8.1 |
| Castell-nedd Gogledd | 3,838 | 379 | 9.9 |
| Castell-nedd De | 4,789 | 440 | 9.2 |
| Onllwyn | 1,161 | 222 | 19.1 |
| Pelellau | 1,113 | 178 | 16.0 |
| Pontardawe | 5,232 | 1,624 | 31.0 |
| Port Talbot | 5,457 | 518 | 9.5 |
| Resolfen | 3,044 | 341 | 11.2 |
| Rhos | 2,382 | 588 | 24.7 |
| Sandfields Dwyrain | 6,692 | 504 | 7.5 |
| Sandfields Gorllewin | 6,495 | 524 | 8.1 |
| Blaendulais | 2,049 | 469 | 22.9 |
| Taibach | 4,634 | 354 | 7.6 |
| Tonna | 2,445 | 292 | 11.9 |
| Trebannws | 1,367 | 459 | 33.6 |
| Ystalyfera | 2,911 | 1,339 | 46.0 |

Maes Strategol 1: Y Teulu

Y Nod

Annog a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd

Y canlyniad a ddymunir

Cynnydd yn nifer y teuluoedd lle defnyddir y Gymraeg fel y brif iaith gyda'r plant gan o leiaf un oedolyn

Targedau Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot 2015-16

1.Cynnal stondin i hyrwyddo gwerth y Gymraeg a dwyieithrwydd mewn 6 o ddigwyddiadau a chynnal sgwrs gyda 400 o rieni er mwyn trosglwyddo gwybodaeth am fanteision a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg erbyn 31 Mawrth 2016.

2.Mewn partneriaeth ag asiantaethau a sefydliadau teuluoedd cynnal 6 o weithgareddau i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd cymdeithasol a'r gefnogaeth sydd ar gael i rieni i fagu eu plant yn Gymraeg neu'n ddwyieithog erbyn 31 Mawrth 2016.

3.Cynnal prosiect i 10 o deuluoedd i gynyddu eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'u cyflwyno i rwydweithiau Cymraeg lleol a chynyddu eu hunaniaeth Gymraeg erbyn 31 Mawrth 2016.

4.Cynnal prosiect ar gyfer 5 o deuluoedd i ymweld a Chanolfan yr Urdd Llangrannog / Caerdydd am benwythnos mewn awyrgylch hollol Gymraeg erbyn 31 Mawrth 2016.

Maes Strategol 2: Plant a Phobl Ifanc

Y Nod

Cynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc a chynyddu eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith

Y canlyniad a ddymunir

Plant a phobl ifanc yn defnyddio mwy o Gymraeg

Targedau Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot 2015-16

1.Cynnal 10 o weithdai cyfrwng Cymraeg i ieuenctid gyda'r nod o gynnig cyfleoedd i 120 o bobl ifainc i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddysgu sgiliau newydd, erbyn 31 Mawrth 2016.

2.Cynnal 24 o weithgareddau cymdeithasol Cymraeg (gyda chymorth bobl ifainc) gyda'r nod o ddenu 500 o bobl ifainc i'r gweithgareddau amrywiol erbyn 31 Mawrth 2016.

3.Cynnal 4 o glybiau ieuenctid cymunedol rheolaidd wythnosol gyda'r nod o gynnig cyfleoedd i 150 o bobl ifainc i ddefnyddio'r Gymraeg erbyn 31 Mawrth 2016.

4.Cynnal prosiect chwaraeon mewn 2 ardal erbyn 31 Mawrth 2016.

5.Cynnal prosiect cyfnewid gyda bobl ifainc o Fentrau / ardaloedd eraill erbyn 31 Mawrth 2016.

6.Erbyn 31 Mawrth 2016 byddwn yn cynnal o leiaf 10 sesiwn ymwybyddiaeth iaith i 400 o ddisgyblion Ysgol Gyfun Ystalyfera â disgyblion BL6 ysgolion cynradd y sir.

Yn ogystal byddwn yn cydweithio gyda rhai o benaethiaid adrannau Cymraeg ysgolion cyfun Saesneg y sir yn cynnal 5 sesiwn ymwybyddiaeth iaith i 150 o ddisgyblion.

7.Cynnal Cynlluniau Chwarae Pasg / Haf 2015 mewn 3 lleoliad ar gyfer 600 o blant.

Maes Strategol 3: Y Gymuned

Y Nod

Cryfhau safle'r Gymraeg o fewn y gymuned

Y canlyniad a ddymunir

Mwy o ddefnydd o'r Gymraeg o fewn cymunedau ar draws Cymru

Targedau Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot 2015-16

1.Parhau i arwain 3 o Bwyllgorau Ardal y Fenter sef Pontardawe, Castell-nedd a Phort Talbot gan sicrhau eu bod yn cyfrannu i raglen ddatblygu'r Fenter.

2.Cydweithio gyda chymuned benodol i gynnal 6 o weithgareddau / ymgyrchoedd penodol i annog pobl i ddefnyddio mwy o Gymraeg erbyn diwedd Mawrth 2016.

3.Cydweithio gyda 5 o fudiadau / sefydliadau cymunedol i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg erbyn 31 Mawrth 2016.

4.Sicrhau dealltwriaeth y Fenter o'r anghenion lleol trwy gynnal 10 o sesiynau ymgynghori gan sicrhau fod y canfyddiadau'n cyfrannu i raglen datblygu'r Fenter erbyn 31 Mawrth 2016.

5.Cydweithio gyda 4 o glybiau chwaraeon yr ardal i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y clybiau erbyn 31 Mawrth 2016.

Maes Strategol 4: Y Gweithle

Y Nod

Cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle

Y canlyniad a ddymunir

Mwy o siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith

Targedau Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot 2015-16

1. Cydweithio gydag Ysgol Gyfun Ystalyfera a Choleg Castell-nedd i gyd-drefnu cyfweiliadau ffug trwy cyfrwng y Gymraeg erbyn 31 Mawrth 2016.
2. Cynnig lleoliad i oleuaf dau o fyfyrwyr (ysgol / coleg) yn ystod y flwyddyn.
3. Cynnig gwasanaeth cyfieithu i fusnesau / fudiadau lleol yn cynnwys cynghorau tref a chymuned.
4. Gwobrwyo busnesau lleol sydd yn darparu gwasanaeth dwyieithog trwy cyflwyno tystysgrif iddynt.
5. Cydweithio gyda Siambr Fasnach a Chyngor Tref Pontardawe i gynnal 'Cystadleuaeth Ffenest Siop' ar 1af o Fawrth i fusnesau bach lleol a gwobrwyo'r enillwyr.

Maes strategol 5: Gwasanaethau Cymraeg

Y Nod

Cynyddu a gwella gwasanaethau Cymraeg ar gyfer dinasyddion

Y canlyniad a ddymunir

Mwy o wasanaethau Cymraeg o safon uchel ar gael i'r cyhoedd a mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o'r gwasanaethau hynny.

Targedau Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot 2015-16

1. Gweithio'n agos gyda phartneriaid grant Adran Gymraeg Llywodraeth Cymru trwy gynnal cyfarfodydd er mwyn rhannu gwybodaeth, cynllunio a chydweithio ar brosiectau fel bo'r galw.

2. Y Prif Swyddog i barhau i arwain y Fforwm Sirol gan sicrhau cynnal 4 cyfarfod yn ystod y flwyddyn ariannol.

Penodir aelod o'r Fforwm i gymryd cyfrifoldeb am gynnal y cyswllt gyda Phartneriaethau Plant a Phobl Ifainc / Cynlluniau Sengl yr Awdurdod Lleol ac yn adrodd yn ôl ym mhob cyfarfod o'r Fforwm.

3. Cydweithio â Llywodraeth Cymru i hyrwyddo a chefnogi prosiectau ac ymgyrchoedd lle bo'n perthnasol.

4. Datblygu'r perthynas gyda'r Cyngor Sir drwy gynnal cyfarfodydd gyda swyddogion ac / neu aelodau etholedig i drafod cydweithio yn y meysydd canlynol:-

Strategaeth Cymunedol – cydweithio â'r swyddog sydd a chyfrifoldeb am ddatblygu'r strategaeth gymunedol er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chynnwys yn y broses.

Prif ffrydio'r Gymraeg – mynychu 4 cyfarfod grŵp "Swyddogion sydd a chyfrifoldeb am y Gymraeg" er mwyn ystyried a datblygu prosiectau penodol ar y cyd.

5. Y Prif Swyddog i barau i fynychu 4 cyfarfod o'r Fforwm Cynllun Strategol yr Iaith Gymraeg mewn Addysg y sir erbyn 31 Mawrth 2016.

6. Cydweithio gydag Adran Addysg y Sir i gyflwyno a weithredu'r "Siarter Iaith" ar gyfer ysgolion clwstwr Y.G.Ystalyfera Castell-nedd Port Talbot a De Powys.

Maes strategol 6: Y Seilwaith

Y Nod

Cryfhau seilwaith ar gyfer yr iaith

Y canlyniad a ddymunir

Bod mwy o adnoddau ac arfau ar gael i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, gan gynnwys o fewn yr amgylchedd ddigidol.

1. Sicrhau bod gwefan y Fenter iaith yn cael ei ddiweddarau'n gyson.

2. Cynyddu'r niferoedd sydd ar fas data "Digwyddiatur" y Fenter iaith o 1,400 i 1,500 ac ar "Weplyfr" y Fenter, cynyddu'r nifer o ffrindiau o 1,300 i 1,500 erbyn 31 Mawrth 2016.

3. Sicrhau bod gwybodaeth am weithgareddau / ddigwyddiadau'r Fenter iaith yn ogystal a mudiadau Cymraeg eraill yn cael eu hysbysebu'n rheolaidd trwy system "Digwyddiatur" y Fenter.

4. Sicrhau bod tudalen newyddion y Fenter iaith yn ymddangos o fewn "Llais", papur bro ar gyfer Cwmtawe â'r cyffiniau yn fisol.

5. Parhau i gydweithio gyda chwmni "Golwg" a sicrhau cyswllt rhwng gwefan y Fenter iaith a "Golwg 360".

6. Sicrhau bod datganiadau i'r wasg (SW Evening Post / SW Guardian) yn digwydd yn rheolaidd.

7. Parhau i ddatblygu'r perthynas rhwng y Fenter iaith a S4C, BBC Radio Cymru a Chwmni Teledu Tinopolis, ac i fanteisio ar unrhyw gyfle sydd i ddefnyddio'r cyfryngau i hyrwyddo'r iaith Gymraeg.